Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r

# ystafell newyddion

Mehefin 2022




Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru





# croeso

Rhifyn Mehefin 2022

## Neges gan Tamsyn Rowe, rheolwr y prosiect

Yn y rhifyn arwyddocaol hwn o gylchlythyr Awel y Môr, fe gewch chi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith o wireddu'r prosiect hwn – sef buddsoddiad ynni adnewyddadwy mwyaf y degawd yng Nghymru.

Ar ôl cyflwyno ein cynigion yn ffurfiol i Arolygiaeth Gynllunio'r DU a Cyfoeth Naturiol Cymru mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn ein cynigion i'w hystyried. Nid dyma'r penderfyniad terfynol ond mae'n garreg filltir ar y ffordd, gan fod cymeradwyaeth yr Arolygiaeth Gynllunio yn cadarnhau bod ein cais yn cydymffurfio â'r rheoliadau angenrheidiol ac y gallwn symud i'r cam nesaf.

Bydd ein cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded forol yn cael prawf tebyg, ac rydym yn gobeithio cael newyddion da am hynny yn ystod yr wythnosau nesaf hefyd.

Mae'r rhain yn rhwystrau hanfodol i'w goresgyn, ond mae'r gwaith caled ymhell o fod wedi gorffen wrth i ni ddechrau ar gyfnod newydd a'ch cyfle i gofrestru i gael rhoi eich barn am y prosiect.

Mae ein cynigion ar gyfer fferm wynt Awel y Môr wedi cael eu llywio gan sgyrsiau â phobl leol. Arweiniodd ymgynghoriad statudol y llynedd at nifer o newidiadau i'r dyluniad; y mwyaf arwyddocaol oedd gostyngiad yn uchafswm y tyrbinau o 91 i rhwng 34-50, a gostyngiad o 26 y cant yn ardal y tyrbinau

Cafodd y newidiadau hyn eu hymgorffori yn ein dyluniad a'r ceisiadau am gydsyniad datblygu. Gallwch ddarllen mwy amdanynt yn ein cylchlythyr Rhagfyr 2021 neu yn ein Hadroddiad Ymgynghori, sy'n nodi eich holl sylwadau a sut rydym ni wedi ymateb iddynt yn fanwl.l. Bellach, gallwch chi weld y cais cyfan ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (gweler isod).

Wrth i ni gyflwyno ein ceisiadau ar gyfer archwiliad cyhoeddus, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n cadw golwg ar yr wybodaeth ddiweddaraf ac y byddwch chi'n cymryd rhan. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i wneud hynny, yn ogystal â chyngor ar sut gall busnesau'r rhanbarth ymuno â'n cadwyn gyflenwi, a llawer mwy.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â thîm y prosiect drwy ein gwefan neu drwy e-bost gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.



Neges gan Tamsyn Rowe, rheolwr y prosiect



# Sut mae cofrestru fel ‘Parti â Diddordeb’ a dweud eich dweud

**Ar ôl i’n cais gael ei dderbyn i’w ystyried, mae’r prosiect bellach yng ‘ngham cyn-archwilio’ proses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae hysbysiadau’n cael eu cyhoeddi mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol, ar ein gwefan, ac ar arwyddion ar hyd y llwybr cebl (yn unol â’r rheoliadau perthnasol). Bydd yr hysbysiadau hyn yn eich gwahodd i gofrestru eich diddordeb yn y prosiect gyda’r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn i chi allu cymryd rhan yn y cyfnod archwilio chwe mis, y mae disgwyl iddo ddechrau ym mis Medi 2022.**

Os ydych chi’n cefnogi neu’n gwrthwynebu ein cynigion, neu os nad ydych chi wedi penderfynu eto, gallwch chi gymryd rhan. Ond mae’n rhaid i chi gofrestru fel ‘Parti â Diddordeb’ yn gyntaf drwy gyflwyno ‘Cynrychiolaeth Berthnasol’ (disgrifiad byr o’ch diddordeb) i’r Arolygiaeth Gynllunio cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef **6 Gorffennaf 2022**. Gall unrhyw un gofrestru ac nid yw’n cymryd llawer o amser i wneud hynny. Mae rhagor o gyngor gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar gael yma:

Nodyn Cyngor 8.2: Sut mae Cofrestru i Gymryd Rhan Mewn Archwiliad | Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (planninginspectorate.gov.uk)

Mae ffurflen gofrestru’r Arolygiaeth Gynllunio ar gael ar-lein drwy dudalen prosiect Awel y Môr ar wefan yr Arolygiaeth:

**https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/**

Neu, os hoffech gael copi caled o’r ffurflen gofrestru, ffoniwch yr Arolygiaeth Gynllunio ar 0303 444 5000 gan nodi “Awel y Môr” a rhif cyfeirnod yr Arolygiaeth: EN010112. Gallwch anfon ffurflenni copi caled wedi’u llenwi at:

The Planning Inspectorate (PINS)<br>
Temple Quay House<br>
Temple Quay<br>
BRISTOL<br>
BS1 6PN

Byddwch yn ymwybodol y bydd yr holl sylwadau a gyflwynir yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio a byddant yn rhwym wrth ei pholisi preifatrwydd, sydd ar gael yma:

**https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-privacy-notices/customer-privacy-notice**





Gellir cyflwyno sylwadau perthnasol i’r Arolygiaeth Gynllunio hyd at **11:59PM ar 6 Gorffennaf 2022**. Gallwch hefyd weld ein dogfennau cais DCO ar-lein ar wefan yr arolygiaeth:

Cofrestru fel hyn yw eich **cyfle olaf i roi eich barn**. Cadwch lygad am ymgynghoriad ar wahân Cyfoeth Naturiol Cymru ar elfennau ar y môr y prosiect o dan y rheoliadau trwyddedu morol. Byddwn ni’n rhoi gwybod i chi am y ddwy broses drwy wefan y prosiect a rhifynnau o’r cylchlythyr hwn yn y dyfodol.

Os ydych chi am weld unrhyw rannau o ddogfennau’r cais mewn fformat arall, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â chael gafael ar y dogfennau, cysylltwch â ni’n uniongyrchol gan ddefnyddio’r manylion a ddarperir ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Sylwch y gallwch weld rhywfaint o ddogfennau’r cais ar ffurf copi caled mewn lleoliadau adneuo dethol, gan gynnwys copi o’n Hysbysiad Derbyn (a elwir hefyd yn ‘hysbysiad adran 56’, sydd wedi cael ei gyhoeddi mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol yn ôl yr angen) a Chrynodeb Annhechnegol o’n Datganiad Amgylcheddol (sy’n nodi sut y gwnaethom gynnal ein Hasesiad o’r Effaith Amgylcheddol ynghyd â’r canlyniadau). Edrychwch ar yr Hysbysiad Derbyn ar ein gwefan i gael rhestr o’r lleoliadau adneuo:

**https://awelymor.cymru/wp-content/uploads/CY_s56-notice_Reg.-9_AyM_13-May-2022_CYMRAEG.pdf**

neu cysylltwch â ni’n uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth.



# Fferm wynt Awel y Môr yn pasio carreg filltir bwysig wrth i'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei dderbyn i'w ystyried gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU

- Mae'r cynlluniau bellach wedi cael eu derbyn i'w hystyried a byddant yn symud ymlaen i gam nesaf y broses gynllunio: rhag-archwilio
- Mae Awel y Môr hefyd yn gwneud cais am Drwydded Forol gyda Llywodraeth Cymru.

**Mae fferm wynt Awel y Môr, a allai ddarparu trydan glân i hyd at hanner miliwn o gartrefi, wedi cyflwyno ei chais am gydsyniad datblygu, gyda'r cais hefyd yn cael ei dderbyn i'w ystyried gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU.**

Nid yw hyn yn golygu bod y broses gydsynio wedi dod i ben, ond bod y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn bodloni'r safonau gofynnol er mwyn symud ymlaen i gam archwilio'r broses, a fydd yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn 2022.


Bydd ein cais am drwydded forol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael ei brofi mewn ffordd debyg.

Yna, bydd y ddau gais yn symud ymlaen ochr yn ochr â'i gilydd, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni y DU a Cyfoeth Naturiol Cymru (ar ran Llywodraeth Cymru) yn 2023.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y fferm wynt arfaethedig yn cael ei hadeiladu chwe milltir oddi ar arfordir gogledd Cymru ym Môr Iwerddon, i'r gorllewin o fferm wynt weithredol Gwynt y Môr, gyda'i chysylltiad grid wedi'i gynllunio i gyrraedd y draethlin rhwng y Rhyl a Phrestatyn.

Mae'r cynigion ar gyfer Awel y Môr, sy'n cynnwys hyd at 50 tyrbin 332m o uchder, yn cael eu cyflwyno gan RWE Renewables ar ran ei bartneriaid Stadtwerke München a Siemens Financial Services, fel chwaer brosiect i Gwynt y Môr.

Dywedodd Tamsyn Rowe, Rheolwr Prosiect Awel y Môr:









"Mae hon yn garreg filltir bwysig o ran datblygu'r prosiect cenedlaethol hwn, a fydd yn helpu i gyrraedd y targedau yn strategaeth diogelwch ynni'r DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

"Mae'r ffaith bod Arolygiaeth Gynllunio'r DU wedi derbyn ein cais yn benllanw llawer o waith caled gan dîm y prosiect, gyda channoedd o dudalennau o adroddiadau'n ymdrin â materion fel o ble byddwn ni'n rhedeg y cebl sy'n cysylltu'r tyrbinau â'r grid, y llwybrau y bydd cerbydau'n eu defnyddio yn y compowndiau adeiladu ar y tir, a'r arolygon o fywyd gwyllt lleol.

"Os caiff ei gymeradwyo, bydd y prosiect hwn yn gam arall ym mherthynas hirdymor y rhanbarth ag ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys prosiectau fel Gwynt y Môr a Chlocaenog, a'r cynllun prentisiaeth poblogaidd yng Ngholeg Llandrillo, a fydd yn datblygu sgiliau a galluoedd y rhanbarth yn y sector am flynyddoedd lawer."

Mehefin 2022 Awel y Môr

# Yr Arolygiaeth Gynllunio: Y Broses o Wneud Cais am Orchymyn Cydsyniad

Tua dwy flynedd

## Cyn ymgeisio:

Chwiliwch am wybodaeth yn y cyfryngau lleol ac mewn mannau cyhoeddus ger lleoliad y prosiect arfaethedig, fel eich llyfrgell. Bydd y datblygwr yn datblygu eu cynigion ac yn ymgynghori'n eang.

28 diwrnod

## Derbyn:

Mae gan yr arolygiaeth, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, 28 diwrnod i benderfynu a ydy'r cais yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cam archwilio gan gynnwys a ydy'r datblygwr wedi ymgynghori digon.

rydym yma

Tua 4 mis

## Rhag-archwilio:

Gallwch chi nawr gofrestru fel parti sydd â diddordeb; byddwch chi'n cael gwybod am hynt y cais a chyfleoedd i gyflwyno eich achos chi. Bydd arolygwyr yn cynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn llunio'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.

6 mis

## Archwilio:

Gallwch chi nawr anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gallwch wneud cais i siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae gan yr arolygiaeth chwe mis i gynnal yr archwiliad.

6 mis

## Penderfyniad:

Bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn dri mis arall i gyhoeddi penderfyniad ynghylch y cynnig.

6 wythnos

## Ar ôl y penderfyniad:

Mae cyfle i herio'r penderfyniad yn gyfreithiol.

# Cwmni o Sir y Fflint yn helpu i ddod ag Awel y Môr i fodolaeth

Mae asiantaeth greadigol o Sir y Fflint yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wireddu'r cynlluniau ar gyfer fferm wynt ar y môr Awel y Môr.

Mae Daydream Designs o Dreffynnon wedi bod yn gweithio gyda'r datblygwr RWE Renewables i sicrhau bod gwybodaeth ar gael ledled gogledd Cymru, drwy ddarparu gwefan y prosiect a gwasanaethau dylunio eraill.

Mae hyn wedi cynnwys holiaduron, graffeg a lluniau, a'r arddangosfa ar-lein ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus Awel y Môr, a helpodd i arddangos y datblygiad pan oedd digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'u cyfyngu gan y pandemig.

Dywedodd y cyfarwyddwr creadigol, Sian Saunders, fod gweithio gyda thîm Awel y Môr wedi helpu'r cwmni i ddysgu cymaint mwy am y posibiliadau o ran ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Dywedodd Sian: **"Rydw i'n gallu gweld fferm wynt Gwynt y Môr o fy nghartref, sydd wedi ei gwneud yn haws o lawer dychmygu sut bydd Awel y Môr yn edrych wrth greu graffeg a lluniau eraill.**

**"Rydyn ni'n dîm bach yma yn Nhreffynnon, ond rydyn ni i gyd wedi ymrwymo i wneud ein rhan i symud yn nes at sero net.**

**"Fel cwmni, fe wnaethon ni ddewis cyflenwr ynni adnewyddadwy yn unig ychydig flynyddoedd yn ôl, felly mae gweithio i wireddu'r prosiect hwn, ochr yn ochr â nifer o brosiectau eraill rydyn ni'n cyfrannu atynt mewn rhannau eraill o Gymru, wedi bod yn galonogol."**

Cewch ragor o wybodaeth am Daydream Designs ar eu gwefan, www.daydreamdesigns.co.uk



# Lansio bwi LiDAR sy'n arnofio i helpu i fapio patrymau gwynt



**Mae dyfais arnofiol soffistigedig wedi cael ei lansio oddi ar arfordir gogledd Cymru i helpu tîm prosiect Awel y Môr i ddeall patrymau gwynt a thonnau ymhellach a sicrhau'r allbwn gorau posib o dyrbinau'r fferm wynt.**

Mae'r bwi LiDar (canfod golau a phennu golau) gwynt arnofiol Seawatch® yn defnyddio system laser i ganfod symudiadau atmosfferig gannoedd o fetrau i mewn i'r aer a bydd yn cyfrannu data gwerthfawr a fydd yn helpu i fireinio dyluniad terfynol y prosiect a'r amcangyfrifon o faint o ynni y bydd y tyrbinau'n ei gynhyrchu.

Bydd y ddyfais a gafodd ei lansio gan y contractwyr Fugro o'r dociau yn Lerpwl, ac sydd wedi'i hangori'n gadarn i wely'r môr, yn cymryd mesuriadau am y 12 mis nesaf.

# Ymgynghoriad budd cymunedol yn dod i ben gyda channoedd o ymatebion

**Mae'r ymgynghoriad ar sut y gallai fferm wynt Awel y Môr fod o fudd i'r gymuned leol wedi dod i ben ar ôl derbyn dros 400 o ymatebion o bob rhan o ogledd Cymru.**

Bydd yr ymatebion nawr yn cael eu defnyddio i helpu'r tîm i ddatblygu syniadau cychwynnol a'r camau nesaf ar gyfer y pecyn buddion cymunedol. Ar ôl cael mewnbwn gan bobl leol, cynrychiolwyr etholedig, grwpiau gwirfoddol a busnesau ar draws y rhanbarth, bydd tîm y prosiect yn llunio cyfres o brif ganfyddiadau i'w rhannu'n ddiweddarach eleni.

Dywedodd Tamsyn Rowe, rheolwr prosiect Awel y Môr: **"Fe hoffen ni ddiolch i bawb a wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ddatblygu strwythur y pecyn buddion cymunedol wrth i'r prosiect cyffredinol fynd yn ei flaen gyda'r mewnbwn hwn mewn golwg.**

**"Yr ymgynghoriad cam cynnar hwn oedd y tro cyntaf i bobl gogledd Cymru gael lleisio eu barn, ac er y bydd cyfleoedd strwythuredig eraill, rydyn ni hefyd yn croesawu safbwyntiau'n fwy anffurfiol os yw pobl yn dymuno cysylltu dros e-bost."**



Ymweliad Julie James

Fe wnaeth Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru ymweld â Phorthladd Mostyn lle cyfarfu â Chadeirydd RWE UK, Tom Glover, yn ogystal â phrentisiaid technegwyr tyrbinau Natalie Edleston, Jamie Simmonds, Owen Williams a Jacob Taylor, sy'n astudio yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

Dywedodd Julie James: **"Mae ein gweledigaeth yn glir, rydyn ni eisiau i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion ynni ni o leiaf, a defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei gynhyrchu dros ben i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur hinsawdd – mae'r ymweliad hwn wedi dangos i mi fod hyn yn bosibl.**

**"Yn y cyfnod yn arwain at COP26 fe wnaethon ni gyhoeddi Sero Net Cymru a oedd yn cadarnhau ein hymrwymiad i drawsnewid y broses o gynhyrchu ynni'n sylweddol, gan symud oddi wrth danwydd ffosil i gynhyrchu ynni adnewyddadwy cynaliadwy ac mae wedi bod yn wych treulio rhywfaint o amser yn gweld hyn ar waith."**





# Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Gynghrair Ynni ar y Môr

Mae'r Gynghrair Ynni ar y Môr, clwstwr cadwyn gyflenwi sy'n cael ei hyrwyddo gan RW fel rhan o Fargen Sector Gwynt ar y Môr, wedi cael cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei waith.

**https://www.gov.uk/government/publications/offshore-wind-sector-deal**

Mae'r fargen yn bodoli i godi ymwybyddiaeth amserol o gyfleoedd sydd ar y gweill o ran gwynt ar y môr, gan helpu i adeiladu a thyfu cadwyni cyflenwi lleol ar draws Cymru, ond yn enwedig gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Mae'r sefydliad yn darparu digwyddiadau, ymweliadau safle a gweithgareddau eraill o ran: datblygu busnes, arloesi, seilwaith, hyfforddiant a sgiliau. Mae'n helpu i sicrhau bod manteision cynlluniau ynni adnewyddadwy yn aros yn y rhanbarth.

Bydd y cyllid newydd yn cael ei ddefnyddio i helpu'r fargen i ddod yn fwy sefydledig, i gefnogi ei datblygiad, i chwifio'r faner dros fusnesau lleol, i fapio galluoedd diweddaraf y gadwyn gyflenwi ac i helpu i hyrwyddo dyfodol y diwydiannau gwynt ar y môr a chynlluniau ynni arnofio.

Yn ogystal, bydd gan y sefydliad bresenoldeb blaenllaw yn un o ddigwyddiadau'r diwydiant sydd ar y gweill - **Cynhadledd 'Global Offshore Wind' Renewables UK**, a gynhelir ym Manceinion, 21-22 Mehefin.

Mae'r fargen yn rhan o ymgyrch prosiect Awel y Môr i wella ei waith allgymorth a'i ddull o ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi, gan helpu i sicrhau fod manteision cynlluniau o'r fath yn aros yn lleol.

Os hoffech chi neu eich busnes gael rhagor o wybodaeth am bartneriaid cydweithredol y sefydliad, a chofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i **Dudalen LinkedIn y fargen**. Mae gwefan newydd ar y ffordd yn fuan.



# Cynlluniau'r Gadwyn Gyflenwi

Fel rhan o'i waith yn paratoi i wireddu Awel y Môr, mae tîm y prosiect yn creu cynllun cadwyn gyflenwi ar gyfer y cyfnod adeiladu a'r tu hwnt, er mwyn cefnogi busnesau lleol, gweithgareddau arloesi, mentrau sgiliau a seilwaith ymhellach.

Mae'r tîm yn dechrau drwy astudio'r ffordd orau i'r cynllun hwn weithio er budd y rhanbarth, ac ar ran RWE a Chyngor y Diwydiant Gwynt ar y Môr (OWIC), mae'n helpu i ganfod cyfleoedd gweithgynhyrchu ac yn rhoi cyngor ynghylch pa gyfleusterau porthladd a gweithgynhyrchu y bydd eu hangen.



www.awelymor.cymru

Cysylltwch â ni 0800 197 8232 awelymor@rwe.com